CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd Cyfarfodydd yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 19 Tachwedd a nos Lun 9 Rhagfyr am 8.00yh.

AGENDA
Roedd y Clerc wedi rhoi posteri yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfodydd.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymuno gwellhad llwyr a buan i Dewi Davies sydd yn yr Ysbyty ar hyn o bryd. At hyn croesawyd Eric Davies i'r cyfarfod yn dilyn llawdriniaeth, a dymuno gwellhad buan i Andrew Thomas oedd newydd dderbyn llawdriniaeth. Estynnwyd cydymdeimlad â Meinir Evans ar golli ei mam-gu a'i hewythr yn ddiweddar.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf cyn y cyfarfodydd gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Penderfynwyd prynu defnyddiau ar gyfer ffensio o amgylch y cae a threfnwyd symud ymlaen â'r gwaith.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd adroddiad o gyfarfod cynt ar y wefan ac wedi ymddangos yn 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader'.

LLWYBR CYHOEDDUS DOL-COED
Teimlai'r Cynghorwyr nad oedd angen symud y llwybr cyhoeddus yn Brynamlwg.

LLWYBR CYHOEDDUS EGLWYS LLANLLWNI - PONTLLWNI
Roedd y Clerc wedi danfon llythyr at Gyngor Sir Caerfyrddin am gyflwr y llwybr cyhoeddus yma a'r baw cŵn ar hyd y llwybr, ac yn gofyn a fyddai'n bosib codi arwyddion. Roedd wedi derbyn map yn nodi y llwybr cyhoeddus ond heb dderbyn unrhyw gadarnhad ynglŷn â chwblhau'r gwaith.

TORRI PORFA
Roedd Mr Lyn Jones yn gwerthfawrogi'r llythyr o ddiolch a'r wybodaeth bod y Cynghorwyr yn hapus â'r gwaith roedd wedi ei wneud yn y pentref ar ran y Cyngor Bro yn ystod y flwyddyn diwethaf.

Penderfynwyd cefnogi: Banciau Bwyd Sir Caerfyrddin; Pwyllgor Apêl Ward Llanfihangel-ar-arth (Eistedfod yr Urdd); CFFI Sir Gâr.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 13 Ionawr 2020 am 8.00yh.